




Beirniadaeth Medal Bobi Jones

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

Rydw i a'm cyd-feirniad Siân wedi llwyr fwynhau wedi bod yng nghwmni pobl ifanc mor frwdfrydig a byrlymus yn ystod y dydd heddiw. Wrth i Gymru chwilio am filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 rydym ein dau'n teimlo'n galonogol iawn wrth feddwl am y dyfodol.

Roedd chwe chystadleuydd eleni a'r chwech o safon uchel o ran eu gallu cynnal sgwrs yn hyderus, ymroi i ddysgu'r iaith ac ymfalchïo yn eu Cymreictod. Oherwydd hyn, ac er bod y ddau ohonom wedi mwynhau'r dasg yn fawr iawn, roedd penderfynu ar enillydd yn her heddiw. Yn ein barn ni rydych chi i gyd yn haeddu clod a phob un yn enillydd wrth ennill iaith.

Cawsom fwynhau'r ystod eang o brofiadau wnaeth y chwe chystadleuydd rannu gyda ni heddiw - sefydlu Clwb Cymraeg yn y coleg, gwirfoddoli gyda chlybiau chwaraeon, helpu ennill Gwobr Aur y Siatr Iaith yn yr ysgol, helpu gyda'r Clwb Drama Cymraeg lleol, actio a chanu, manteisio ar dechnoleg i greu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg - fel apiau, podlediadau a gwefannau cyfryngau cymdeithasol. Clywsom ni hefyd am fwynhau dysgu am hanes a brwydr yr iaith a chariad at fytholeg Cymru a'i chwedlau. Roedd hefyd yn braf clywed sôn am sut roedd y bobl ifanc yn mwynhau eu cyrsiau Cymraeg yn yr ysgol a'r coleg a'u hathrawon ysbrydoledig. Diolch yn fawr iawn i'r athrawon hynny am eu cefnogaeth a gwaith caled.



Felly, rydym yn dod at yr enillydd. Dyma berson ifanc sy'n bachu ar bob cyfle posib i ddefnyddio'r Gymraeg a chreu cyswllt â'r iaith a'i diwylliant. Person ifanc sydd wedi dysgu'r Gymraeg yn gywir iawn ond yn cynnig siarad yn naturiol iawn hefyd. Yn ogystal â dysgu i safon uchel, manteisiodd ar bob cyfle i brofi'r Gymraeg fel iaith fyw gyda'i theulu adre a'i ffrindiau yn siopa a chymdeithasu. Roedd sôn am y ffaith bod sŵn y Gymraeg wedi'i hysbrydoli i ddysgu'r iaith a hefyd am gariad amlwg at lenyddiaeth a diwylliant. Ac mor amlwg oedd y tân yn ei bola.

Felly, enillydd Medal Bobi Jones, Eisteddfod yr Urdd, Sir Ddinbych 2022
yw Anna Ng.

